

Adolygiad Blynnyddol  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg

2010–11

Welsh Language Board  
Annual Review

2010–11

## Croeso

Croeso i Adolygiad Blynnyddol Bwrdd yr iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn 2010–11.

Yn y ddogfen hon fe gewch ddarllen am lwyddiannau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn aeth heibio, ac ers ein sefydlu 18 mlynedd yn ôl.

Pobl sy'n gwneud iaith yn iaith fyw, ac wrth weld effaith gadarnhaol ar ddefnydd pobl o'r Gymraeg mae mesur llwyddiant ein prosiectau. Dyna pam fod yr adroddiad hwn wedi cael ei ysgrifennu yng ngeiriau'r bobl sy'n defnyddio'r iaith bob dydd: yn eu cartrefi, mewn ysgolion a cholegau, yn y byd gwaith ac wrth fwynhau eu hunain.



Meri Huws  
Cadeirydd

## Welcome

Welcome to the Welsh Language Board's Annual Review for 2010–11.

In this report you can read about the Board's successes during the past year and since we were established 18 years ago.

It is people who breathe life into languages, and by looking at the positive effect on people's use of Welsh we can measure the successes of our projects. That is why this report has been written in the words of people who use Welsh in all aspects of their lives: at home, at school or college, at work and when enjoying themselves.



Meri Huws  
Chair

## Cynnwys

- Cyflwyno'r Gymraeg
- Defnyddio'r Gymraeg
- Mwynhau'r Gymraeg
- Rhwydwaith Ewropeaidd
- Sylwadau'r Cadeirydd
- Sylwadau'r Prif Weithredwr
- Y Bwrdd
- Datganiad Ariannol
- Atodiad 1-4
- Manylion Cyswllt

## Contents

Introducing Welsh	04
Using Welsh	16
Enjoying Welsh	36
European Network	50
Comments of the Chair	53
Comments of the Chief Executive	57
The Board	60
Financial Statement	62
Annex 1-4	70
Contact Details	87

# Cyflwyno'r Gymraeg Introducing Welsh



*"Roedd y cyngor a'r cymorth ymarferol gan y swyddog Twf a'r sgyrsiau am iaith y cartref gyda'r fydwraig yn ddefnyddiol iawn, ac yn dangos nad yw cyflwyno dwy iaith o'r cychwyn yn anodd nac anghyffredin."*

*"The practical support and advice offered to us by the Twf officer and the chats we had about language choices with the midwife were really useful, and showed us that introducing two languages from day one was not something which was uncommon or difficult."*

Rachel Jones

**O'r crud**

Gall siarad dwy iaith ymestyn cylch ffrindiau a chyfleoedd cymdeithasol plant. Mae prosiect Twf yn rhoi cefnogaeth a chymorth i rieni fagu eu plant yn ddwyieithog.

Mae Rachel a Steve Jones o Ben-y-bont ar Ogwr yn rhieni i Mia ac Ioan. Cymraeg mae Rachel yn siarad gyda'r plant, a Steve yn siarad Saesneg.

**From day one**

Speaking two languages can extend a child's social activities and friendship groups. The Twf project offers help and support for parents to raise their children bilingually.

Rachel and Steve Jones from Bridgend are parents to Mia and Ioan. Rachel speaks Welsh with the children, and Steve speaks English.

**90%**  
o fydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn y Gymru wledig yn sôn am fanteision Cyflwyno'r Gymraeg  
of rural midwives and health visitors explain the advantages of Introducing Welsh

**12,000**  
o sgyrsiau un wrth un gyda rhieni  
one-to-one discussions with parents

[twfcymru.com](http://twfcymru.com)  
Cliciwch y botwm ar y dde i weld manteision Cyflwyno'r Gymraeg  
Click the button on the right to see the advantages of Introducing Welsh



"Nawr mae gen i hyder i siarad Cymraeg unwaith eto, ac mae'n rhan naturiol o fywyd pob dydd."

"I now have the confidence to speak Welsh again and it is now part of everyday life."

Catrin Davies

"Roedd y sesiynau'n gyfle gwych i siarad Cymraeg gyda ffrindiau newydd, gan helpu'n gilydd i ddatblygu hyder yn yr iaith."

"The sessions gave me the opportunity to speak Welsh with friends and we helped each other to develop and build up confidence."

Lucie Bromfield

### Yn y Cartref

'Mae dy Gymraeg di'n Grêt' yw'r cynllun i godi hyder siaradwyr Cymraeg i'w defnyddio yn eu bywydau pob dydd.

Roedd Catrin Davies a Lucie Bromfield o Donyrefail yn gallu siarad Cymraeg yn yr ysgol ond heb ddefnyddio llawer ar yr iaith ers gadael, ac roeddent wedi colli hyder.

O'r mamau a fynychodd y sesiynau roedd:

### At Home

'Mae dy Gymraeg di'n Grêt' (Your Welsh is Great) is a scheme to raise the confidence of Welsh speakers to use the language in their everyday lives.

Catrin Davies and Lucie Bromfield from Tonyrefail spoke Welsh at school but hadn't used it much since leaving, and had lost their confidence.

Of the mothers who attended the sessions:

**91%**

yn fwy hapus i siarad Cymraeg yn gyffredinol  
were happier to speak Welsh in general

**82%**

yn siarad mwy o Gymraeg  
gyda'u plant  
spoke more Welsh with  
their children

**74%**

yn siarad mwy o Gymraeg  
gyda'u ffrindiau  
spoke more Welsh with  
their friends



"Fe welodd eu Cymraeg nhw gant y cant ar ôl mynd i'r ysgol, nid dim ond ei glywed e'n y tŷ gen i."

Hywel Griffiths, Tad

"If anybody asked me 'Should I send my children to a Welsh-medium primary school?', I would say 'yes' as it is a huge benefit to them now and in the future."

Ann Griffiths, Mother

## Yn yr ysgol

Mae'r Bwrdd yn:

- cymeradwyo cynlluniau addysg Gymraeg awdurdodau lleol
- mapio'r galw am addysg Gymraeg
- hyrwyddo gwerth addysg Gymraeg ymyst rhieni

Mae Hywel ac Ann Griffiths yn rhieni i Cara ac Aibhla. Mae Hywel yn siarad Cymraeg ac Ann yn siarad Saesneg. Mae'r ddwy'n mynd i ysgol Gymraeg.

## At school

The Board:

- approves local authorities' Welsh language schemes
- maps the demand for Welsh-medium education
- promotes the value of Welsh-medium education to parents

Hywel and Ann Griffiths are Cara and Aibhla's parents. Hywel is a Welsh speaker and Ann speaks English. The girls attend a Welsh-medium school.

61,000

o ddisgyblion yn mynychu  
ysgolion cynradd Cymraeg  
pupils attending Welsh-medium  
primary schools

467

o ysgolion cynradd Cymraeg  
Welsh-medium primary  
schools

I weld y teulu yn siarad am fanteision  
addysg Gymraeg ewch i [twfcymru.com](http://twfcymru.com) neu  
cliciwch ar y botwm ar y dde

To see the family discussing the advantages  
of Welsh-medium education go to [twfcymru.com](http://twfcymru.com) or click on the button on the right

**Yn yr ysgol uwchradd**

Mae prosiect 'Symud Ymlaen' yn annog plant sydd eisoes wedi derbyn addysg gynradd Gymraeg i barhau â hynny yn yr ysgol uwchradd.

**At secondary school**

The 'Moving Forward' project encourages children who have received primary education in Welsh to do the same at secondary school.

**56**

o ysgolion uwchradd Cymraeg  
Welsh-medium secondary schools

**42,000**

o ddisgyblion yn mynychu ysgolion uwchradd Cymraeg  
pupils attending Welsh-medium secondary schools

Cliciwch y botwm ar y dde i weld rhestr o ysgolion uwchradd Cymraeg  
Click on the button on the right to see a list of Welsh-medium secondary schools

## Mewn Addysg Bellach ac Uwch

Mae modd dilyn amrywiaeth o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn colegau addysg bellach ac mewn prifysgolion.

## In Further and Higher Education

It is possible to study all kinds of subjects through the medium of Welsh in further education colleges and universities.

# 09/2012

Dyddiad lansio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol  
Launch date of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## 18

coleg addysg bellach  
â chynllun iaith  
further education colleges have  
a Welsh language scheme

## 11

coleg addysg uwch  
â chynllun iaith  
higher education colleges have  
a Welsh language scheme



*"Dwi'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n ddefnyddiol gwybod termau Cymraeg a Saesneg. Dwi'n ei gweld hi'n haws dysgu drwy gyfrwng fy mamiaith."*

*"I follow my course through the medium of Welsh and it is useful to know terms in Welsh and English. I find it easier to study in my first language."*

Dafydd Morgan  
Myfyriwr \_Student  
Prifysgol Aberystwyth University



Defnyddio'r Gymraeg  
Using Welsh



*"Mae cleifion yn trafod pethau sensitif iawn gyda nyrsys, ac mae nifer ohonynt yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gwneud hynny yn Gymraeg. Mae'r logo 'Cymraeg' ar y wisg yn dangos i gleifion a'u teuluoedd pa nyrsys sy'n siarad yr iaith."*

*"Patients discuss highly sensitive issues with nurses, and many feel more comfortable doing so in Welsh. The 'Cymraeg' logo on the uniform shows patients and their families which nurses can speak Welsh."*

Julie Jenkins  
Pennaeth Bydwreigiaeth Sir Gaerfyrddin  
Head of Midwifery in Carmarthenshire

## Yn y sector cyhoeddus

Pwrpas cynllun iaith yw egluro sut bydd sefydliadau'n mynd ati i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo a monitro cynlluniau iaith.

**557**

o gynlluniau gweithredol  
operational schemes

**41**

o gynlluniau newydd wedi  
eu cymeradwyo eleni  
new schemes approved  
this year

**49**

o gynlluniau diwygiedig wedi  
eu cymeradwyo eleni  
revised schemes approved  
this year

## Awdurdodau lleol yn arloesi trwy gynlluniau iaith

**83%**

o holl swyddogion **Cyngor Sir Ceredigion** sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd yn siaradwyr Cymraeg

**1,293**

o swyddogion **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** wedi cwblhau modiwl ymwybyddiaeth iaith a 156 wedi derbyn gwrsi Cymraeg

**99**

o swyddi rheng flaen **Cyngor Sir y Fflint** wedi eu dynodi yn "Cymraeg hanfodol"

## In the public sector

The purpose of a language scheme is to explain how an organisation will treat the Welsh and English languages on the basis of equality when providing services. The Board approves and monitors Welsh language schemes.

## Local authorities pioneering through Welsh language schemes

**83%**

of all public-facing officers at **Ceredigion County Council** can speak Welsh

**1,293**

**Conwy County Borough Council** officers completed a language awareness module and 156 received Welsh lessons

**99**

front-line jobs at **Flintshire County Council** denoted "Welsh essential"

## Yr iaith i'r gwaith

Mae pobl yn treulio cyfran fawr o'u bywydau yn y gwaith. Gall y gweithle, felly, fod yn hynod ddylanwadol o ran sefydlu arferion iaith unigolion.

Mae'r Bwrdd yn helpu gwahanol sefydliadau i gyflwyno mwy o'r Gymraeg yn y gweithle.

## At work

People spend a large proportion of their lives at work. The workplace, therefore, can be highly influential in establishing a person's language use.

The Board helps various establishments to increase the use of Welsh in the workplace.

## Rhai o ganlyniadau'r prosiect eleni:

### Bob wythnos

sesiynau i staff ymarfer eu Cymraeg,  
Prifysgol Abertawe

### Weekly

Welsh language sessions  
for staff to practise their Welsh,  
Swansea University

## Some results of this year's project:

### Hyfforddiant

cyfieithu ar y pryd er mwyn galluogi  
staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn  
cyfarfodydd mewnol,  
Gwasanaeth Tân ac Achub  
Gogledd Cymru

### Training

to provide simultaneous translation  
to enable staff to use Welsh  
in internal meetings,  
North Wales Fire and Rescue Service

"Mae 35% o'n staff yn rhugl yn y Gymraeg  
a 35% arall yn dysgu'r iaith. Trwy roi dysgwyr  
i eistedd wrth ymyl siaradwyr Cymraeg rhugl  
rydym yn rhoi'r cyfle iddynt ddefnyddio'r  
Gymraeg a chynyddu eu sgiliau iaith yn y  
gweithle."

"35% of our staff are fluent Welsh speakers and  
another 35% are learning the language. By placing  
Welsh learners to sit next to fluent speakers we  
are giving them the chance to use Welsh and  
develop their language skills in the workplace."

Jenny Pye  
Swyddog Cydraddoldeb a'r laith Gymraeg  
Cyngor Cefn Gwlad Cymru  
Equality and Welsh Language Officer  
Countryside Council for Wales

**CYMRAEG YN GYNTAF**  
**Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg**

**1,000+**

o ymweliadau â thudalennau  
cymorth am y Gymraeg ar  
wefan mewnol i staff yn fisol,  
Cyngor Sir Gaerfyrddin  
monthly visits to support pages  
about the Welsh language on  
an internal website for staff,  
Carmarthenshire County Council

## Hyrwyddo dewis iaith

Mae ymgyrch 'mae gen ti ddewis...' yn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg o safon sydd ar gael:

- dros y ffôn
- ar bapur
- ar-lein
- wyneb yn wyneb

Gyda chymorth y prosiect lluniodd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru hysbyseb i dynnu sylw'r cyhoedd at y dewis iaith wrth ffonio am wasanaeth archwiliad diogelwch Tân yn y cartref.

## Promoting language choice

The 'mae gen ti ddewis...' campaign promotes quality Welsh language services available:

- over the phone
- on paper
- online
- face to face

With the Board's support, the three Fire and Rescue Service in Wales created an advert to bring people's attention to the language choice available when booking a home fire safety check.

"Mae'r ymateb i'r ymgyrch genedlaethol o drefnu archwiliadau diogelwch Tân yn y cartref trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn boblogaidd iawn, diolch i'r cymorth rydym wedi ei gael i farchnata'r gwasanaeth gan y Bwrdd."

"The response we have had to the national campaign for providing a home fire safety check through the medium of Welsh has been very positive, thanks to the Board's help to promote the campaign."

Vaughan Jenkins  
Pennaeth Diogelwch yn y Cartref  
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  
Head of Home Safety  
South Wales Fire and Rescue Service

# 1,439

archwiliad diogelwch Tân yn y cartref trwy gyfrwng y Gymraeg, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

home fire safety checks in Welsh,  
North Wales Fire and Rescue Service

# Dyblu

nifer ymweliadau â thudalen  
Gymraeg Dŵr Cymru

# Double

number of visits to Welsh Water's  
Welsh language website



## Yn eiriol dros siaradwyr Cymraeg

Er yr holl waith da sy'n digwydd yn y sector cyhoeddus, mae rhai sefydliadau yn methu â chydymffurfio ag ymrwymiadau eu cynlluniau iaith.

Gall y Bwrdd weithredu ar sail derbyn cwynion gan y cyhoedd am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg neu wasanaeth Cymraeg anfodhaol gan fynd ati i geisio cael datrysiaid boddhaol cyn gynted â phosibl.

**206**

cwyn am ddiffyg cyflawniad cynllun iaith  
complaints about a lack of compliance regarding language scheme

**5**

o ymchwiliadau statudol wedi eu cynnal gan y Bwrdd  
statutory inquiries held by the Board

"Ar ôl cael fy nal yn goryrru bu'n rhaid i fi fynd ar gwrs ymwybyddiaeth cyflymder. Pan na ches i gyfle teg i'w ddilyn yn Gymraeg fe wnes i gŵyn i'r Bwrdd. Ar ôl i'r Bwrdd drafod â'r trefnwyr, fe ges i gynnig dilyn y cwrs yn Gymraeg.

Deallaf fod pobl eraill sy'n gorfol mynd ar y cwrs yn y dyfodol yn gallu dewis gwneud hynny yn Gymraeg."

Haf Jones, Caerdydd\*

\* Newidiwyd yr enw.

## Acting on behalf of Welsh speakers

Despite the good work being done in the public sector, some organisations are failing to comply with commitments within their language schemes.

The Board can act upon receiving complaints from the public about the inadequacy, or lack of, Welsh language services and works towards resolving problems as soon as possible.

Ni chafwyd cytundeb ag Ofcom ar gynnwys eu Cynllun iaith a chyfeiriwyd y mater at Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yn parhau i fod dan ystyriaeth.

Agreement was not reached with Ofcom regarding the contents of their Language Scheme and the matter was referred to the Welsh Government. The matter is still under consideration.


"After being caught speeding I was sent on a speeding awareness course. When I wasn't given a fair opportunity to follow the course in Welsh I made a complaint to the Board. After the Board discussed the matter with the providers, I was then given the opportunity to follow the course in Welsh.

I understand that language choice is now available for other people who will be sent on such courses in the future."

Haf Jones, Cardiff\*

\* The name has been changed.

## Cwynion fesul sector




## Complaints by sector

Llywodraeth Ganol	Central Government
Llywodraeth yng Nghymru	Government in Wales
Iechyd a Gofal	Health and Care
Gwirfoddol	Voluntary
Addysg	Education
Cyfleustodau	Utilities

Please note that the complaints refer to the failure to comply with language schemes in the public sector. The private sector is not included, apart from some utilities which operate Welsh language schemes.



***Yr elusen iechyd meddwl:***

- yn cael ei redeg gan bobl gydag afiechyd meddwl difrifol a'u teuluoedd
- yn cyflwyno gwasanaethau ym mhob un o 22 sir Cymru
- yn rhoi grym i bobl wella
- yn ymgyrchu dros newid!

***The mental health charity:***

- run by people with serious mental illness and their families
- delivering services in all 22 counties of Wales
- empowering people to recover
- campaigning for change!

**Yn y trydydd sector**

Mae llawer o sefydliadau'r trydydd sector yn dewis llunio cynlluniau iaith er mwyn dangos i'r cyhoedd eu bod nhw o ddifrif ynglŷn â darparu gwasanaeth dwyieithog o safon.

**In the third sector**

Many organisations in the third sector choose to draw up language schemes voluntarily in order to show the public that they are serious about providing bilingual services to a high standard.

**£34,000**

i gefnogi prosiectau arloesol i gynyddu gwasanaethau Cymraeg  
to support innovative projects  
to increase Welsh language services

**£18,000**

i gefnogi cynlluniau peilot cyfrwng Cymraeg  
to support Welsh language pilot schemes

**85**

o gynlluniau iaith gwirfoddol gweithredol  
operational voluntary language schemes

**10**

o gynlluniau iaith gwirfoddol newydd eleni  
new voluntary third sector language schemes this year

"Gyda chymorth ariannol o gronfa ddatblygu trydydd sector y Bwrdd, rydym wedi dechrau cynllun peilot er mwyn cynyddu sgiliau ein defnyddwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Pan fyddant yn gwella, felly, bydd ganddynt fwy o obaith o gael swyddi ac integreiddio yn ôl i'w cymunedau lleol."

Nicola Thomas, Hafal

"With financial support from the Board's third sector development fund we have embarked upon a pilot scheme to increase our clients' skills in using the Welsh language. Therefore, when they get better they will have opportunities in securing a job and integrating back into their local communities."

Nicola Thomas, Hafal



## Yn y sector preifat

Mae hi'n gwneud synnwyr busnes i gwmnïau ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn denu a chadw cwsmeriaid.

Mae gan y Bwrdd dîm o swyddogion sy'n gweithio'n agos gyda busnesau er mwyn eu cynghori, eu cynorthwyo a'u hannog i gyflwyno a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg.

Y ffordd orau i fusnesau gynllunio eu gwasanaethau Cymraeg yw llunio polisiau iaith, sy'n nodi'n glir beth mae'n bwriadu ei wneud.

## In the private sector

It makes good business sense for companies to use the Welsh language in order to attract and keep customers.

The Board has a team of dedicated officers who work closely with businesses to advise, help and encourage them to introduce and develop their use of Welsh.

The best way for businesses to plan their Welsh language services is to draft a Welsh language policy that clearly sets out what the business intends to do.

**450**

o fusnesau wedi llunio  
polisi o'u gwirfodd  
businesses have compiled  
a policy voluntarily

**356**

174  
o bolisiau newydd wedi  
eu cytuno eleni  
new policies agreed this year

Daeth **Enfys Fox**, Rheolwraig Ffynonellau Marchnata Lleol Tesco yng Nghymru, i'r brig yng ngwobrau 'Tesco Values' 2011 am ei gweledigaeth a'i dyfalbarhad wrth ddatblygu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu siopau.

Mae'r Bwrdd yn gweithio'n agos gydag Enfys i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn archfarchnadoedd. Un o'r prosiectau diweddaraf yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar nwyddau.

**Enfys Fox**, Local Sourcing Marketing Manager for Wales, was successful in the 'Tesco Values' awards 2011 for her vision and perseverance in developing and increasing the use of Welsh in their stores.

The Board works closely with Enfys to increase the use of Welsh in supermarkets. One of the latest projects is to increase bilingual packaging on goods.



## Adnabod siaradwyr Cymraeg

Ar boster, bathodyn neu wisg, mae sefydliadau sy'n arddangos yr arwydd oren 'Cymraeg' yn dangos eu bod yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Mae Ffion Paschalis yn gweithio fel ymgynghorydd gyda chwmni Hays Recruitment. Mae hi'n gweld manteision mawr dros wisgo'r bathodyn 'Cymraeg' yn y gweithle.

## Identifying Welsh speakers

On a poster, badge or uniform, businesses displaying the orange 'Cymraeg' sign are showing that they can offer a Welsh language service.

Ffion Paschalis works as a consultant with Hays Recruitment. She appreciates the benefits of wearing the 'Cymraeg' badge to work.

**25,000+**

o fathodynau wedi eu dosbarthu eleni  
badges distributed this year

Cymraeg

Tynnodd y Bwrdd sylw at y logo 'Cymraeg' eleni trwy gynhyrchu clip fideo a'i ddarlledu ar-lein. Mae'r clip fideo yn dangos cwsmer (sy'n digwydd bod yn gi!) yn adnabod yr arwydd ac yn gwsmer bodlon ar ôl derbyn gwasanaeth Cymraeg a llond bag o selsig blasus gan ei gigydd.

Er mwyn gweld y clip fideo ewch i [cicymraeg.com](http://cicymraeg.com) neu cliciwch y botwm ar y dde

The Board raised awraeness of the 'Cymraeg' logo this year by producing a video-clip and broadcasting it online. The clip shows a happy customer (which happens to be a dog!) recognising the 'Cymraeg' sign and receiving service through the medium of Welsh, and a bag-full of mouth-watering sausages, from his butcher.

To see the video clip,  
go to [cicymraeg.com](http://cicymraeg.com) or  
click the button on the right

## Terminoleg ac Enwau Lleoedd

### Terminoleg

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Bwrdd yn safoni termau ym meysydd gweinyddu cyfiawnder a chydraddoldeb.

*"Mae safoni termau yn hollbwysig ym maes cydraddoldeb. Gallai defnyddio termau ansafonol arwain at wneud cam â phobl. Mae'n rhanddeiliaid ni wedi dweud wrthym gymaint maent yn croesawu gwaith y Bwrdd o ran safoni termau, fel y gallant drafod materion yn ymwneud â'u rhywioldeb trwy gyfrwng yr iaith y maent yn teimlo fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio."*

Andrew White  
Cyfarwyddwr Stonewall Cymru

### Terminology and Place Names

#### Terminology

During the year, the Board standardised equality terms and administration of justice terms.

*"Having standardised terms is all-important when dealing with equality issues. Using non-standardised terms may lead to offending people. Our stakeholders have told us how much they welcome the Board's work in standardising terms, as they can now discuss their sexuality in the language they feel most comfortable using."*

Andrew White  
Director of Stonewall Cymru

### Enwau Lleoedd

Mae'r Bwrdd yn cynnig cyngor ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru i unigolion a sefydliadau o bob math ym mhob cwr o'r wlad. Mae'n cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, yr Arolwg Ordnans ac eraill er mwyn eu cyngori ynghylch ffurfiau safonol enwau lleoedd.

### Place Names

The Board offers advice on the standard forms of Welsh place names to individuals and organisations of all kinds in every part of the country. It works closely with local authorities, the Welsh Government, the Ordnance Survey and others to advise them on the standard forms of place names.

### Y Llinell Gyswllt i'r Gymraeg

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y Llinell Gyswllt, sef gwasanaeth prawfddarllen a chyfeithu yn rhad ac am ddim.

### Linkline to Welsh

The Board is responsible for the Linkline to Welsh, a free proof-reading and translation service.



75

o eiriau: cyfeithu am ddim  
words: free proofreading

30

o eiriau: prawfddarllen  
am ddim  
words: free translation

18,887

y nifer uchaf o ymholiadau  
a gafwyd erioed  
the highest number of  
enquiries ever received

32

33

## Technoleg

Gall pobl ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office a Windows yn Gymraeg trwy lawrlwytho Pecynnau Rhyngwyneb laith. Mae'r pecynnau ar gael am ddim ar wefan y Bwrdd, diolch i bartneriaeth gyda Microsoft. Talwyd am yr holl pecynnau gan Microsoft.

Mae'r Pecyn laith i Office 2010, yn arbennig o addas ar gyfer dysgwyr neu bobl nad ydynt yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg. O hofran dros unrhyw air nad ydynt yn ei ddeall bydd cyfieithiad Saesneg yn ymddangos.

Mae meddalwedd Cymraeg wedi ei osod ar bob cyfrifiadur yn Ysgol Gyfun Gwynllwyw.

*"Mae hi'n bwysig bod gan y disgylion y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfrifiadur, ac yn dod yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg trwy gyfrwng y Gymraeg o oedran ifanc."*

Alun Thomas, Athro Technoleg Gwybodaeth, Ysgol Gyfun Gwynllwyw

## Technology

People can use Microsoft Office and Windows in Welsh, by downloading Welsh Language Interface Packs. The packs are available free of charge on the Board's website, thanks to a partnership with Microsoft. The packs were paid for solely by Microsoft.

The Language Pack for Office 2010 is particularly suitable for Welsh learners or people who are not confident in using the language. Users can hover over any word they don't understand and an English translation will appear.

Welsh software has been installed on every computer in Ysgol Gyfun Gwynllwyw.

*"It is important that the pupils get the chance to use Welsh on computers and that they can use technology through the medium of Welsh from an early age."*

Alun Thomas, IT Teacher, Ysgol Gyfun Gwynllwyw.



Yr ysgolion y cydweithiwyd â hwy yn y prosiect hwn oedd:



The schools involved in the project were:

- 1 Ysgol Glan Clwyd
- 2 Ysgol Morgan Llwyd
- 3 Ysgol Tryfan
- 4 Ysgol Bodedern
- 5 Ysgol Maes Garmon
- 6 Ysgol Gwynllwyw
- 7 Ysgol Bro Ddyfi
- 8 Ysgol Penweddig
- 9 Ysgol Gyfun Aberaeron
- 10 Ysgol Bro Gwaun

**1,374**

o pecynnau Windows Cymraeg  
wedi eu gosod ar gyfrifiaduron  
mewn ysgolion

Windows in Welsh packs installed  
on computers in schools

Dilynwch y Bwrdd ar:  
Follow the Board on:

- [facebook.com/ygymraeg](http://facebook.com/ygymraeg)
- [@YBwrdd](http://twitter.com/ybwrdd)

# Mwynhau'r Gymraeg

## Enjoying Welsh





## Cefnogi gweithgarwch cymunedol

Mae'r Bwrdd yn rhoi grantiau i nifer o fentrau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned, e.e. y papurau bro a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru.

Mae prosiect cymunedol y **Gwallgofiaid** ym Mlaenau Ffestiniog yn darparu gweithdai roc a DJ i bobl ifanc, gan gynnwys sesiynau tiwtora gan dechnegwyr, cerddorion a chynhyrchwyr cerddoriaeth. Mae'r bobl ifanc hefyd yn creu cylchgrawn eu hunain, *Clincar*.

Cafodd y Gwallgofiaid ei sefydlu yn 2003, ond pan ddaeth yr arian grant i ben yn 2009, bu'n rhaid torri i lawr yn sylweddol ar waith y prosiect. Rhoddodd y Bwrdd gymorth ariannol i'r Gwallgofiaid ac erbyn hyn mae'r cwmni yn darparu cyfleoedd unigryw i bobl ifanc ardal Blaenau Ffestiniog unwaith eto.

## Supporting activities in the community

The Board gives grants to a number of initiatives promoting Welsh in the community, e.g. the community newspapers (papurau bro) and the Local Eisteddfodau Association.

The **Gwallgofiaid** in Blaenau Ffestiniog is a community project providing rock and DJ workshops to young people, including tutoring sessions with technicians, musicians and music producers. Young people taking part in the project also create their own magazine, *Clincar*.

The Gwallgofiaid was set up in 2003, but when their grant funding ended in 2009 the company had to reduce its project work substantially. The Board gave financial support to the company, and now it is offering unique opportunities for the young people in the Blaenau Ffestiniog area once again.

**£4.7m**

o grantiau i hyrwyddo'r defnydd o'r  
Gymraeg yn y gymuned  
in grants to promote the  
use of Welsh in the community



## Hybu a chefnogi gwaith ein partneriaid

Un o elfennau pwysicaf ein gwaith yw'r gwaith a wnawn gyda'n partneriaid cymunedol.

Sefydladau yw'r rhain sy'n cynnal y diwylliant Cymraeg ac sy'n creu bwrlwm yn yr iaith.

Mae gwybodaeth am holl grantiau'r Bwrdd yn 2010-11 i'w gweld yn yr adran Atodiadau yng nghefn y ddogfen.

Promoting and supporting the work of our partners

One of the most important elements of our work is the work we do with our partners in the community.

These organisations support the Welsh language and culture.

Information on all the grants the Board awarded in 2010-11 can be found in the Appendices section at the back of the document.





Un prosiect a ddigwyddodd trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Aman Tawe oedd ffilmi o'r rhaglen deledu *Clwb Rygbi Shane* ar gyfer S4C (gweler llun uchod). Roedd cyfle i bobl ifanc yr ardal ddefnyddio'r Gymraeg ar y cae rygbi ac wrth gymdeithasu ar ôl y gemau a'r sesiynau hyfforddi. Bwriad y Bwrdd yw adeiladu ar sylfeini o'r math hyn wrth hybu'r Gymraeg yn yr ardal.

A project which was held through the medium of Welsh in Aman Tawe was *Clwb Rygbi Shane* (pictured above), filmed for S4C. Local young people were given the opportunity to use Welsh on the rugby field, when socialising after the games and in training sessions. The Board aims to build on this work as it promotes the language in the area.

## Yn y gymuned

Iaith fywiog yw iaith sy'n cael ei defnyddio gan bobl yn eu cymunedau. Mae nifer y bröydd lle mae'r Gymraeg yn iaith sy'n cael ei siarad bob dydd wedi gostwng yn sylweddol dros yr ugain mlynedd diwethaf.

Er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, mae gan y Bwrdd swyddogion sy'n gweithio gyda phartneriaid lleol mewn gwahanol rannau o Gymru.



### Hybu'r iaith yn Aman-Tawe

Mae ymchwil yn dangos fod yr iaith dan fygythiad yn un o'i hen gadarnleoedd, yng nghymoedd Aman a Thawe.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu'r Bwrdd yn paratoi ar gyfer sefydlu Ardal Hybu'r Gymraeg yno er mwyn diogelu'r Gymraeg ar lawr gwlad.

Bwriad y cynllun yma yw cydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn y gymuned i hyrwyddo'r Gymraeg. Efallai y bydd y gwaith hwn yn cynnig patrwm y gellid ei efelychu ar draws Cymru.

## In the community

A living language is a language which is used by people in their communities. The number of Welsh-speaking communities has decreased substantially over the last twenty years.

To increase the opportunities to use Welsh in the community, the Board has officers working with local partners in different parts of Wales.

### Cynlluniau Gweithredu iaith Language Action Plans

- 1 Amlwch
- 2 De Arfon
- 3 Bro Ddyfi a Dolgellau
- 4 Rhuthun
- 5 Meirion-Dwyfor
- 6 Corwen a Phenllyn
- 7 Bro Teifi

### Promoting the language in Aman-Tawe

Research shows that the language is under threat in a previous stronghold, the Aman and Tawe valleys.

Over the last year, the Board has been preparing to establish a Language Promotion Area within these communities to safeguard the Welsh language at grass-roots level.

The aim of this project is to work with local authorities and other partners within the community to promote the Welsh language. This work may offer a template that could be emulated in other areas across Wales.



## Pobl Ifanc

Os yw'r iaith am ffynnu i'r cenedlaethau sydd i ddod, mae'n rhaid creu cyd-destun modern a ffasiynol iddi, fel bod pobl ifanc yn dewis ac yn dymuno ei siarad hi gyda'i gilydd yn gymdeithasol.

Trwy gyfrwng y Prosiect Cefnogi Arferion Iaith, mae'r Bwrdd yn rhoi'r cyfrifoldeb o annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn nwyo'r bobl ifanc eu hunain.

Mae'r prosiect wedi arwain at sefydlu bandiau a gorsafoedd radio mewn ysgolion.

## Young people

If the Welsh language is to thrive in the future, a modern and fashionable context must be created so that young people choose and want to speak it with each other socially.

Through the Language Practices' Support Project the Board has placed the responsibility of encouraging social use of the language in the hands of the young people themselves.

The project has led to setting up bands and radio stations at schools.

*"Mae'r prosiect yma wedi dangos i ni fod Cymraeg yn gallu bod yn hwyl, a nid iaith y dosbarth yn unig."*

*"This project has showed us that Welsh can be fun, and not just used in the class."*

Disgybl blwyddyn 7  
Year 7 pupil

*"Rwy'n credu fel pwllgor i ni lwyddo i gryfhau y lefel o Gymreictod ym mlwyddyn 7 ac o fewn yr ysgol."*

*"I believe that as a committee we succeeded in strengthening the level of Welshness in Year 7 and within the school."*

Disgybl blwyddyn 12  
Year 12 pupil

*"Mae blwyddyn 7 nawr yn stopio fi yn y corridor ac yn siarad am y gweithgareddau y buon nhw'n rhan ohono, ac yn gofyn pryd bydd y clwb nesaf."*

*"Year 7 pupils now stop me in the corridor and talk about the activities they enjoyed and ask me when the club meets up next."*

Disgybl blwyddyn 12  
Year 12 pupil

## Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

Mae yna bob math o weithgareddau gall pobl ifanc eu mwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n bleser gan y Bwrdd gefnogi sefydliadau fel yr Urdd, y Menter Iaith, y Ffermwyr Ifanc, Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, Ciwdod a Gwobr Dug Caeredin wrth eu gwaith.

## Outside the classroom

Young people can enjoy all kinds of activities through the medium of Welsh, and the Board is very pleased to support the work of the Urdd, the Language Initiatives, the Young Farmers' Clubs, the Welsh Music Foundation, Ciwdod and the Duke of Edinburgh's Award.



## Sioeau'r haf

Roedd gan y Bwrdd stondin yn:

- Eisteddfod yr Urdd, Llanerchaeron
- Y Sioe Fawr, Llanelwedd
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd

### Eisteddfod Genedlaethol 2010

Cyfrannodd y Bwrdd at gynllun 'Diwrnod i'r Teulu' a oedd yn cynnig tocyn am ddim i'r Maes ar y dydd Sul. Ymwelodd dros 20,000 o bobl â'r Maes y diwrnod hwn, llawer yn ymweld â'r Eisteddfod am y tro cyntaf.

## The summer shows

The Board had a stand in:

- Eisteddfod yr Urdd, Llanerchaeron
- The Royal Welsh Show, Llanelwedd
- The National Eisteddfod, Blaenau Gwent and Heads of the Valleys

### The National Eisteddfod 2010

The Board contributed to the 'Family Day' that offered a free ticket to the Maes on Sunday. Over 20,000 people came to the Maes that day, many were local people visiting the Eisteddfod for the first time.

**19,200**


nifer o ymwelwyr â stondin y Bwrdd yn y tair sioe

number of visitors to the Board's stand at the three shows

**104**

o weithgareddau ar y stondin yn y tair sioe

activities held on the stand at the three shows



Llun/Image: Eisteddfod Genedlaethol Cymru/The National Eisteddfod of Wales/Dewi Jones



## Rhwydwaith Ewropeaidd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gydlynú'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth leithyddol. Mae'r Rhwydwaith yn cael ei ariannu gan lywodraethau a sefydliadau cynllunio ieithyddol ar hyd a lled Ewrop. Mae'r Rhwydwaith yn rhannu arferion da a gwybodaeth rhwng gwahanol gymunedau ieithyddol ynglŷn â sut mae cynyddu'r defnydd o'u hieithoedd.

Mae'r Rhwydwaith hefyd yn rhoi pwyslais ar godi ymwybyddiaeth ymmsg sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ynglŷn â phwysigrwydd hybu a chyd nabod ieithoedd answyddogol yr Undeb.



## European Network

The Board is responsible for coordinating the Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD). The Network is funded by governments and language planning institutions from across Europe. The aim of the Network is to share best practice and information between different linguistic communities on how to increase the use of their own languages.


The Network also places emphasis on raising awareness among EU institutions regarding the importance of promoting and acknowledging the EU's unofficial languages.

*"Dwi'n teimlo ei bod hi'n bwysig fod cymunedau ieithyddol sydd mewn sefyllfa debyg yn rhannu arferion gorau a phrofiadau gyda'i gilydd ac yn cydweithio. Mae budd mewn rhwydweithio. Mae'r ymweliadau astudio wedi ein galluogi ni yn y Ffindir i wella'n prosesau cynllunio ieithyddol."*

*"I feel it is really important that linguistic communities which have similar situations co-operate to exchange best practices and experiences and work together. There are many benefits to networking. The study visits have enabled us to improve our language planning processes in Finland."*

Peggy Heikkinen  
Is-Gadeirydd y Rhwydwaith  
Vice-Chair of the Network

leithoedd aelodau'r Rhwydwaith:



Language of Network members:

- |               |                   |                         |
|---------------|-------------------|-------------------------|
| 1. Cymraeg    | 11. Davisámegiela | 21. Dolnoserbski        |
| 2. Brezhoneg  | 12. Karjalakse    | 22. Hornjoserbščina     |
| 3. Euskara    | 13. Eesti keel    | 23. Plattdüütsch        |
| 4. Català     | 14. Lietuviškai   | 24. Seeltersk           |
| 5. Galego     | 15. Gaeilge       | 25. Julevsámegiella     |
| 6. Svenska    | 16. Kernewek      | 26. Åarjelsaemien giele |
| 7. Suomi      | 17. Corsu         | 27. Anarâškielâ         |
| 8. Frysk      | 18. Nynorsk       | 28. Sää'mkiöll          |
| 9. Lenga d'òc | 19. Dansk         |                         |
| 10. Meänkieli | 20. Nuurdrefesk   |                         |



*"Mae llwyddiant prosiectau'r Bwrdd i'w gweld ar lawr gwlad Cymru, yn ein sefydliadau a'n busnesau, ein hysgolion a'n meysydd chwarae."*

*"The success of the Board's projects are seen all around us, in our organisations and businesses, schools and playgrounds."*

Meri Huws  
Cadeirydd  
Chair

## Sylwadau'r Cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adolygiad Blynnyddol Bwrdd yr iaith Gymraeg ar gyfer 2010-11.

Mae hi'n ystrydeb mewn adroddiadau fel hyn i edrych yn ôl ar y flwyddyn a fu a'i galw hi'n flwyddyn 'hanesyddol'. Ond wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf o safbwyt datblygiadau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, 'hanesyddol' yw'r union a'r unig air sy'n dod i fy meddwl.

Wrth i Aelodau Cynulliad basio Mesur y Gymraeg ym mis Rhagfyr 2010 ac wrth i'r Mesur dderbyn y cydsyniad brenhinol ar ddechrau 2011 a dod yn ddeddfwriaeth, cydnabuwyd y Gymraeg am y tro cyntaf erioed yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae'r datganiad pwysig hwn yn y ddeddf yn gwneud iawn am y canrifedd o ormes a ddioddefodd y Gymraeg. Gobeithiaf y bydd yn arwain at roi hyder a balchder i bobl Cymru yn eu hiaith fel eu bod yn dewis ac yn mynnu ei defnyddio ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Rwy'n ei theimlo hi'n faint anferthol fy mod wedi cael y cyfre i gyfrannu at y broses o basio'r Mesur hwn a sicrhau fod datganiad clir o statws ynddo. Rwy'n gwybod fod fy nghyd-aelodau a swyddogion y Bwrdd yn rhannu'r un balchder.

Wythnos ar ôl i'r Senedd basio'r Mesur cafodd y strategaeth ddrafat ar y Gymraeg, *laith Fyw: laith Byw*, ei lansio. Ochr arall i'r un geiniog â'r Mesur laith yw'r hyn a geir yn y strategaeth, sef annog a hyrwyddo defnydd o'r iaith – yn y cartref ac yn y gymuned. Gyda'i gilydd, bydd y Mesur a'r strategaeth, ynghyd â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn gosod sylfaen gadarn i'r iaith ddatblygu yn y Gymru fodern.

## Comments of the Chair

It is my pleasure to present the Welsh Language Board's Annual Review for 2010-11.

It is a cliché in reports like this to look back at the past year and call it a 'historical' year. But in terms of the developments which took place regarding the Welsh language, 'historical' is the only word that comes to mind when I think about 2010-11.

When Assembly Members passed the Welsh Language Measure in December 2010 and when it received the royal approval in January 2011 and became a law, for the very first time Welsh was acknowledged as an official language in Wales. This important statement goes some way to compensate for the centuries of oppression the language suffered. I hope it will lead to giving people confidence and pride in their language so they choose and insist on using it in all aspect of their lives.

I feel very privileged to have had the opportunity to contribute to the process of passing this Measure and ensuring that a clear statement on official status was included. I know that Board members and officers share this pride.

A week after the Senedd passed the Measure, the draft strategy, *A Living Language: A Language for Living* was launched. If the Measure deals with one aspect of language planning, the strategy deals with another – namely to encourage and promote use of the language – at home and in the community. Together, the Measure and strategy, along with the *Welsh-medium Education Strategy*, form a solid foundation for the language to develop in modern Wales.

Bydd Llywodraeth Cymru yn penodi'r Comisiynydd yn yr hydref, a hyd nes bydd gennym enw a wyneb i ddeiliad y swydd honno mae'n anodd dyfalu sut yn union y bydd yn mynd ati i barhau â gwaith arloesol y Bwrdd. Gobeithiaf y bydd y Comisiynydd newydd yn eiriolwr cadarn ac yn gwneud ei orau neu ei gorau i sicrhau chwarae teg i siaradwyr Cymraeg.

Bydd gwaith y Comisiynydd yn gyffrous, does dim dwywaith am hynny, yn llawn heriau, ond yn waith a fydd yn dwyn ffrwyth gan arwain at gynyddu hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith.

Bydd y Comisiynydd yn rheoleiddiwr statudol a fydd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r system newydd o safonau ar gyfer y gwahanol sefydliadau a gynhwysir yn y Mesur gan sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio â nhw. Bydd y gwaith o hybu a hyrwyddo'r iaith ar lawr gwlad yn cael ei arwain gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ond, wrth gwrs, fe fydd gan y Comisiynydd a nifer o bartneriaid eraill rôl i'w chwarae yn y gwaith hwn.

Y mae i'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ei heriau hefyd, ac efallai mai'r her fwyaf fydd sicrhau ei fod yn eistedd yn gyfforddus o fewn y portffolio Addysg. Dros y degawdau, mae twf addysg Gymraeg wedi chwarae rhan greiddiol yn natblygiad a pharhad yr iaith. Ond mae'n bwysig cofio bod giât yr ysgol yn ffin bendant iawn ac nad yn yr un ffordd mae hyrwyddo defnydd o'r iaith bob ochr i'r ffin hon. Dros y misoedd nesaf, bydd angen i Lywodraeth Cymru gynllunio'n fanwl sut y byddant yn parhau â'r gwaith o fis Ebrill 2012 ymlaen.

Wrth gyflwyno'r Adolygiad Blynnyddol hwn, codi cwr y llen yn unig ar waith y Bwrdd a wneir.

The Government will appoint the Welsh Language Commissioner in the autumn. Until we have a name or face to whoever is appointed it is hard to guess exactly how he or she will go about to continue with the innovative work the Board has done over the years. I hope the Commissioner will be a strong advocate for Welsh speakers and will do all in his or her powers to ensure that Welsh speakers are given fair play.

The Commissioner's role will be exciting, there's no doubt about that. It will be full of challenges, but will also lead to increasing the rights of Welsh speakers to use the language.

The Commissioner will be a statutory regulator, responsible for developing and implementing the new system of standards for the different organisations named in the Measure and ensuring their compliance. The Education and Skills Department within the Welsh Government will lead the work of promoting and facilitating the language at grass-roots level, but the Commissioner and a number of other partners will have a role to play.

The work of promoting the Welsh language has its challenges too, and perhaps the biggest challenge will be to ensure that the work sits comfortably within the Education portfolio. Over the decades the growth of Welsh-medium education has played a central role in the development and continuation of the language. However, it is important to remember that the school gate is a border, and that the way the language is promoted differs either side of this border. Over the next few months the Welsh Government will need to plan in detail how they will proceed to promote the language from April 2012 onwards.

In presenting this Annual Review, all I am doing is showcasing a few snippets of what the Welsh Language Board has done over the year.

Mae gwir lwyddiant y prosiectau ac ymdrechion caled y swyddogion i'w gweld, nid rhwng cloriau'r adroddiad hwn, ond ar lawr gwlad Cymru, yn ein sefydliadau a'n busnesau, ein hysgolion a'n meysydd chwarae.

Wrth gloi felly, hoffwn estyn fy niolch i'r Prif Weithredwr, Meirion Prys Jones, am ei holl waith wrth ddarparu arweiniad clir i'w staff dros y saith mlynedd diwethaf. Mae cyfnod o newid yn her i unrhyw sefydliad, ond mae'r ffordd y mae swyddogion y Bwrdd wedi parhau i gadw'r momentwm yn dyst i'w hymroddiad dwfn i'r iaith Gymraeg.

**Meri Huws**  
Cadeirydd



Arwyddion Dwyieithog  
Bilingual Signage

The real evidence of the success of our projects and the efforts of our officers are seen, not between the covers of this report, but all around us in every corner of Wales, in our organisations and businesses, schools and playgrounds.

In closing, I wish to extend my sincerest thanks to the Chief Executive, Meirion Prys Jones, for his work in providing clear leadership to his staff over the past seven years. A period of change is challenging for any organisation, but the way the staff have kept momentum in their work is evidence of their deep commitment to the Welsh language.

**Meri Huws**  
Chair



Aelod o staff siop John Lewis yn gwisgo'r bathodyn oren 'Cymraeg'  
A member of staff at John Lewis wearing the orange 'Cymraeg' badge



*"Mae'r her yn parhau i sicrhau fod yr iaith yn goroesi a bod pobl yn dewis ei defnyddio."*

*"The challenge remains to ensure that the language survives and that people choose to use it."*

Meirion Prys Jones  
Prif Weithredwr  
Chief Executive

## Sylwadau'r Prif Weithredwr

Ymhen blynnyddoedd bydd haneswyr y dyfodol yn edrych yn ôl ar 2010-11 fel blwyddyn arwyddocaol i'r iaith Gymraeg.

Rydw innau am gymryd y cyfle hwn i edrych yn ôl hefyd; ac edrych ar y ffordd mae tirwedd ieithyddol Cymru wedi ei chwyldroi ers pasio Deddf yr iaith Gymraeg 1993 a sefydlu'r Bwrdd.

Eithriad prin oedd derbyn gwasanaeth Cymraeg gan gorff cyhoeddus cyn 1993, ac roedd y gwasanaeth gan amlaf yn un ar hap. Mae gennym bellach dros 550 o gynlluniau iaith sydd ag ymrwymiadau o ran sicrhau gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac i'r staff sy'n cael eu cyflogi gan y sefydliadau hyn.

Cerddwch ar hyd unrhyw stryd fawr mewn unrhyw dref yng Nghymru'r dyddiau hyn, a beth welwch chi ond siopau, banciau a phob math o fasnachwyr yn defnyddio ac yn arddangos y Gymraeg. Mae rhai busnesau yn mynd yn bellach na'i gilydd wrth gwrs, er enghraifft y 450 o fusnesau sydd wedi llunio polisi iaith gyda'r Bwrdd. Ym mis Mawrth eleni, cynhaliodd y Bwrdd gynhadledd i fusnesau ddod at ei gilydd i drafod a rhannu arferion da am sut i gyflwyno'r Gymraeg. Roedd hi'n galonogol tu hwnt i weld ystafell yn orlawn o bobl fusnes yn siarad a gwrandu a chymryd nodiadau o'r hyn oedd yn cael ei ddweud. Mae hi'n amlwg fod y gymuned fusnes yn effro i werth masnachol y Gymraeg yng Nghymru.

Er bod deddf gwlad yn bleidiol i'r iaith, a bod mwy o wasanaethau ar gael trwy gyfrwng Gymraeg a bod addysg Gymraeg yn cynhyrchu mwy o siaradwyr, camgymeriad fyddai honni fod popeth yn fêl i gyd.

## Comments of the Chief Executive

A few years from now, historians will look back on 2010-11 as a significant year for the Welsh language.

I want to take this opportunity to look back too, and look at the way the linguistic landscape of Wales has been revolutionised since the passing of the Welsh Language Act 1993 and the establishment of the Board.

It was a rare exception to receive any kind of service through the medium of Welsh prior to 1993, and that service was mostly one provided by chance. Now more than 550 public organisations have language schemes with commitments to ensure that Welsh language services are available to the public and for members of staff.

If you walk along any high street in any town in Wales these days, you will see shops, banks and all types of traders using and displaying the Welsh language. Some businesses go further than others of course, for example the 450 businesses which have drawn up a language policy with the Board. In March this year, the Board held a one-day conference for businesses to come together to discuss and share good practices on how to introduce Welsh.

It was hugely encouraging to see a room full of business people actively listening and taking notes of what was being said. It is clear that the business community is very much awake to the commercial value of using Welsh in Wales.

Although legislation works in favour of the language and more services are available in Welsh and Welsh-medium education is producing more speakers, it would be misleading to say that everything is plain sailing.

Yn wyneb mewnlifiad, all-lifiad a diffyg trosglwyddiad iaith i'r genhedlaeth nesaf, bu gostyngiad sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad. Yng Nghyfrifiad 1991 roedd yna 92 o gymunedau lle roedd dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Erbyn 2001 roedd y ffigwr hwn wedi gostwng i 54. Tybed beth fydd canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn ei ddangos.

Mae'r her yn parhau, felly, i sicrhau fod yr iaith yn goroesi a bod pobl, yn enwedig y genhedlaeth ifanc, yn dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth gymdeithasu â'i gilydd. Ers degawd bellach mae gwaith prosiect y Bwrdd - y gwaith a wnaeon gyda theuluoedd ac o gefnogi ac o ariannu gwaith ein partneriaid cymunedol – wedi codi hyder pobl i ddefnyddio'r iaith ac i'w mwynhau.

Un o lwyddiannau mwyaf y Bwrdd dros y deunaw mlynedd diwethaf, rwy'n credu, yw'r gallu i gydweithio â sefydliadau o bob sector, partneriaid cymunedol a'r cyhoedd gan annog cydweithio rhwng bob un ohonynt. Hawdd fyddai llithro i'r fagl o ffraeo ymseg ein gilydd, ond fe lwyddwyd i osgoi hyn. Lles y Gymraeg oedd yn dod yn gyntaf bob tro, a chredaf i'r ffaith nad oeddem yn fodlon cyfaddawdu ar hynny ennill parch i'r Bwrdd, ac o'r herwydd mae'r iaith ar ei hennill.

Fe gyfeiria'r Cadeirydd yn ei Sylwadau am y datblygiadau gwleidyddol a aeth rhagdynt yn ystod y flwyddyn. Yn y cyfamser, tra roedd y trafodaethau hyn yn digwydd, fe barhaodd gwaith o ddydd i ddydd y Bwrdd ac ni chollwyd y momentwm.

Er y bydd safonau yn dod i ddisodli cynlluniau iaith o dan y gyfundrefn newydd, nid yw cynlluniau iaith yn colli eu statws yn y dyfodol agos, ac mae'n hollbwysig bod sefydliadau yn parhau i weithredu eu cynlluniau a glynu at eu hymrwymiadau.

In the face of in-migration and out-migration and people not passing the language on from one generation to the other, there has been a significant reduction in the use of Welsh as a language of the community. According to the 1991 Census there were 92 communities where over 70% of the population could speak Welsh. By 2001 this figure had reduced to 54. I wonder what the 2011 Census results will show.

